
Wicipedia
Y Gwyddoniadur Rhydd

# Gwyddoniadur

Cyfrol ysgrifenedig gynhwysfawr, sy'n gasgliad o wybodaeth ar bwnc neu amrywiaeth o bynciau yw **gwyddoniadur**.



Brockhaus Konversations-Lexikon

## Hanes y gwyddoniadur

Ysgrifennwyd cyfrolau gwyddoniadurol gan rai o awduron Groeg yr Henfyd, megis Aristoteles, a Plinius. Un o brif ganolfannau i weithgarwch o'r fath oedd Llyfrgell enwog Alecsandria yn Yr Aifft.

Yn ystod yr Oesoedd Canol, datblygwyd y dull gwyddonol a'r arfer o nodi ffynonellau gan ysgolheigion Mwslemaidd, a chynhyrchwyd sawl cyfrol gynhwysfawr. Ymysg y rhai mwyaf nodedig mae gwaith Abu Bakr al-Razi ar wyddoniaeth, 270 llyfr Al-Kindi, gwyddoniadur meddygol Ibn Sina, a chyfrolau hanes y Ash'ari, al-Tabri, al-Masudi, ac eraill.

Ysgrifennodd Cassiodorus (c.490 - c.580) wyddoniadur ar ddysg a'r Saith Celfyddyd, sef yr *Institutiones divinarum et saecularium litterarum*. Daeth y llyfr yn waith safonol yn yr Oesoedd Canol a astudid ledled Ewrop.

Datblygodd y gwyddoniadur modern o'r geiriadur yn ystod y 18g. Ymysg cyfrolau arloesol y ganrif honno mae'r *Cyclopaedia, or Universal Dictionary of Arts and Sciences*, *Encyclopædia Britannica*, a'r Brockhaus Konversations-Lexikon.

Cyhoeddwyd y gwyddoniadur aml-gyfrol Cymraeg cyntaf mewn deg cyfrol rhwng 1854 a 1879 dan yr enw Y Gwyddoniadur Cymreig, dan olygyddiaeth gyffredinol John Parry (1812-1874).

## Geirdarddiad

Ffurfiwyd y gair gwyddoniadur, gydag enghreifftiau o 1852 ymlaen, o'r terfyniad -*iadur* a'r gair *gwyddon* (sef cangen neilltuol o wybodaeth), o'r gair *gwybod*.[1] Daw'r gair am wyddoniadur mewn llawer o ieithoedd (Saesneg *encyclopaedia* a (Ffrangeg *encyclopédie* er enghraifft) o'r gair Lladin Canol *encyclopaedia*, o'r gair Roeg ενγκύκλια παιδεία "addysg gyffredinol". Mae gan y Gymraeg gair cynhenid am wyddoniadur, ac yn anarferol yn hynny o beth.

## Gweler hefyd

- Rhestr gwyddoniaduron Cymraeg

# Cyfeiriadau

1. gwyddoniadur (https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html?gwyddoniadur). *Geiriadur Prifysgol Cymru*. Adalwyd ar 10 Awst 2022.

Chwiliwch am ***gwyddoniadur*** yn Wiciadur.

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Gwyddoniadur&oldid=12605146"